Theatr Clwyd

Hawdd ei Ddeall

Grŵp Mynediad Cymunedol

Rydyn ni'n chwilio am bobl fyddar, anabl neu niwrowahanol o'n cymuned leol

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Theatr Clwyd**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Galwad Grŵp Mynediad Cymunedol**'.

Mai 2025

Am y Grŵp Mynediad Cymunedol

Yng ngwanwyn 2025, byddwn yn symud yn ôl i'n hadeilad.

Rydyn ni eisiau gwneud y theatr yn lle croesawgar i bawb.

Rydyn ni eisiau ffurfio **Grŵp Mynediad Cymunedol**.

Fe fydd y grŵp yma yn rhedeg am 2 flynedd. Fe fydd yn rhedeg rhwng Mehefin 2025 a 2027.

Pwy rydyn ni'n chwilio amdano

Rydyn ni'n chwilio am 8 o bobl o'n cymuned leol.

Fe ddylech chi fod eisiau gwneud y celfyddydau yn haws i bawb eu mwynhau.

Mae'r Grŵp Mynediad Cymunedol ar gyfer pobl sy'n nodi eu hunain fel:

- Byddar
- Anabl
- neu **Niwrowahanol**

Mae pobl **niwrowahanol** yn bobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol i lawer o bobl eraill.

Mae eich **profiad byw** yn bwysig. Rydych chi'n gwybod y rhwystrau mae pobl fyddar, anabl a **niwrowahanol** yn eu wynebu.

Mae **profiad byw** yn meddwl gwybod rhywbeth o fod wedi mynd trwyddo go iawn.

Rydyn ni hefyd eisiau clywed gan sefydliadau sy'n cael eu harwain gan, neu sy'n gweithio gyda phobl fyddar, anabl a **niwrowahanol**.

Mae sefydliadau yn gallu gwneud cais am 2 le.

Rydych chi'n gallu ein helpu i ddeall beth sydd angen newid. Fe fydden ni wrth ein bodd yn siarad â chi am sut rydych chi'n gallu cymryd rhan.

Beth rydyn ni eisiau ei wneud

Rydych chi'n gallu rhannu eich profiadau o ddefnyddio Theatr Clwyd.

Rydych chi'n gallu ein helpu i wneud pethau'n well ar gyfer y dyfodol.

Rydych chi'n gallu rhoi syniadau ar bethau fel:

- Archebu tocynnau
- Symud o gwmpas yr adeilad
- Ymuno mewn gweithdai
- Gwneud cais am swyddi
- Sut rydyn ni'n hyrwyddo ein sioeau

Fe fyddwn ni'n cael cyfarfodydd. Fe fyddwn ni'n dewis pynciau sy'n bwysig i chi. Fe fydd cyfarfodydd yn ein helpu i edrych ar ein gwaith a siarad am unrhyw heriau.

Fe fydd tîm ein uwch arweinydd yn dod i gyfarfod unwaith y flwyddyn.

Mae hyn yn meddwl bod eich syniadau chi yn gallu helpu ni i wella'r theatre cyfan. Fe fyddwn ni'n siarad ac yn rhannu syniadau da.

Fe fyddwch chi'n cael cyfle i weld sioeau ac ymarferion.

Rydych chi'n gallu dysgu sut rydyn ni'n gwneud theatr.

Fe fydd rhai sesiynau yn canolbwyntio ar flaen y tŷ. Fe fydd eraill yn ymwneud â chefn llwyfan.

Beth fyddwch chi'n ei wneud

Fe fyddwch chi'n dod i 3 neu 4 cyfarfod y flwyddyn yn 2025.

Y dyddiadau ydy:

- 18 Gorffennaf
- 10 Medi
- 10 Rhagfyr

Fe fydd y cyfarfodydd rhwng 2pm a 5pm. Ond mae hyn yn gallu newid os oes angen. Fe fydd cyfarfodydd yn para 2 i 3 awr.

Fe fyddwn ni'n cael llawer o amser egwyl gyda byrbrydau, te, a choffi.

Weithiau fe fyddwn ni'n gwylio sioe gyda'n gilydd ar ôl y cyfarfod.

Fe fyddwch chi'n cael 2 docyn am ddim ar gyfer pob sioe yn Theatr Clwyd. Am hynny rydyn ni'n gofyn i chi rannu blog byr, nodiadau, neu adborth am eich ymweliad.

Fe fyddwch chi'n cael eich talu £50 am bob cyfarfod.

Os ydyn ni'n gofyn am amser ychwanegol, fe fyddwn ni'n talu mwy i chi. Efallai na fydd rhai pobl eisiau cael eu talu, mae hynny'n iawn hefyd. Rydyn ni'n gallu siarad am hynny

Rydyn ni'n gallu talu am gludiant os oes angen. Fe fyddwn ni'n eich helpu i gyrraedd y cyfarfodydd neu ymuno ar-lein.

Rydyn ni eisiau eich cefnogi yn y ffordd orau rydyn ni'n gallu.

Beth sy'n digwydd nesaf

Os oes gennych chi ddiddordeb, rhowch wybod i ni erbyn **30 Mai 2025**.

Rydych chi'n gallu anfon:

- llythyr
- nodyn llais
- galwad ffôn
- fideo

Fe fydd y cyfweliad yn digwydd ar **5 Mehefin 2025**.

Rydyn ni'n gallu eich cefnogi gydag unrhyw anghenion **mynediad** neu arian.

Mae **mynediad** yn meddwl gallu cael a defnyddio rhywbeth yn hawdd pan fyddwch chi ei ei angen, pa bynnag anghenion sydd gennych chi.

Mae cyfweliadau yn gallu bod yn bersonol neu ar-lein.

Efallai byddwn ni'n gofyn i rai pobl ddod yr ail dro am sgwrs ar ôl y cyfweliad.

Fe fydd gennym ni gyflwyniad ar 18 Mehefin rhwng 3pm a 6pm yn y theatr. Fe fyddwch chi'n dod i'n hadnabod ni a'r gofod.

Fe fyddwch chi'n cael gwahoddiad i wylio sioe o'r enw Tick Tick Boom am 7.30pm ar 18 Mehefin.

Fe fydden ni wrth ein bodd cael gwybod beth rydych chi'n feddwl am y sioe a'r gefnogaeth rydych chi wedi ei gael.

Mwy o wybodaeth

Mae mwy o wybodaeth am y sioe yma: Tick Tick Boom

I gael rhagor o wybodaeth am ein sioeau mynediad, edrychwch: www.theatrclwyd.com/cy/visit/mynediad/perfformiadau-hygyrch

Os ydych chi angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwennan Mair – Cyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol.

E-bost: gwennan.mair@theatrclwyd.com

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.